

No.

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cyngorwyr D. De-Ath (Is-Gadeirydd yn y Gadair).

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cyngorwyr R. Sivagnanam a P. Drake.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol. "

(b) Ymddiheuriadau Am Absenoldeb –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr R. Goode (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr), a M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd)

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2023 fel cofnod cywir.

(d) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

No.

(e) Cynllun Archwilio 2023 Archwilio Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir Cymru (PC/SA151) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Cynllun Archwilio 2023 Drafft Archwilio Cymru i'r Aelodau.

Roedd Atodiad 1 yn amlinellu Cynllun Archwilio 2023 Drafft Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion ynghylch sut y byddai Archwilio Cymru yn cwblhau'r gwaith yn 2023.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cynllun archwilio arfaethedig ar gyfer 2023 a chytuno iddo.

Gofynnodd y Cyngorydd D. De'Ath a oedd unrhyw hynodweddau o ran archwilio Cyd-wasanaeth a oedd yn cynnwys tri Chyngor. Mewn ymateb, dywedodd Mr S. Wyndham (Archwilio Cymru) ei fod yr un fath â phe bai un gwasanaeth Cyngor. Yr unig gymhlethdod oedd mewn perthynas â'r model ariannu lle gellid dosbarthu ad-daliadau yn wahanol ymhlith y tri awdurdod partner.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiad.

Y rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(f) Trosolwg A Diweddariad Ar Wasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y gwasanaeth a'i gynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR).

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn amlinellu sut roedd y gwasanaeth yn gweithio i gyflawni canlyniadau gwell i drigolion a busnesau o fewn y rhanbarth drwy gyfres o wahanol gamau gweithredu a rhaglenni gwaith. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y chwarter, wedi'u manylu o dan y meysydd canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Sefyllfa Ariannol Chwarter 1 – Atodiad 1
- Monitro Perfformiad – Atodiad 2
- Tai'r Sector Preifat
- Gwaith Cartrefi Gwag
- Cefnogi'r Economi Leol - Diweddariadau Hyfforddiant ac Awdurdod Sylfaenol
- Diogelu'r Amgylchedd - Ansawdd Aer a Seinweddau

- Diogelu'r Amgylchedd - Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed – Pryderon ynghylch fêpio
- Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed – Eryl Rhoddwyr Benthyciadau Anghyfreithlon
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau – canlyniadau archwilio a gofynion ychwanegol ar y Gwasanaeth
- Gweithgarwch Gorfodi – Atodiad 6

Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor hefyd ystyried Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2023-24 a atodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad. Roedd y Cynllun yn nodi sut y bydd y GRhR yn cyflawni ei rôl o ddiogelu iechyd y cyhoedd trwy ymchwilio i achosion o glefydau trosglwyddadwy a defnyddio mesurau rheoli, ataliol a gorfodi. Cytunodd y Pwyllgor i Gynllun Clefydau Trosglwyddadwy a Gwasanaeth Iechyd 2023-24 gael ei gymeradwyo.

Yn ogystal, yn Atodiad 4 roedd Cynllun Iechyd Porthladdoedd 2023-24, sef un arall o Gynlluniau Gweithredol y GRhR ar gyfer y flwyddyn. Roedd yn nodi sut y byddai'r Gwasanaethau a Rennir yn cyflawni ei rôl o ddiogelu iechyd y cyhoedd trwy gynnal ystod o reolaethau iechyd. Roedd y Cynllun yn egluro sut y byddai'r Tîm Iechyd Porthladdoedd yn cyflawni ei bwrpas o atal a rheoli clefydau heintus rhag dod i Gaerdydd, Y Barri a'r cyffiniau drwy'r porthladdoedd a'r maes awyr i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Roedd y Cynllun hefyd yn manylu ar y mecanweithiau cyflawni ar gyfer Rhwymedigaethau Statudol mewn perthynas â diogelwch bwyd, rheoli bwyd a fewnforiwyd, glanweithdra llongau, rheoli gwastraff ac iechyd anifeiliaid. Cytunwyd i gymeradwyo'r Cynllun Iechyd Porthladdoedd.

Gofynnodd y Cynghorydd R. Sivagnanam a oedd y galwadau cynyddol am wasanaethau yn cael eu hadlewyrchu yn y rhagamcanion cyllideb ariannol presennol ac a oedd hynny'n rheswm dros y gorwariant a ragwelir. Dywedodd y Prif Gyfrifydd y byddai'n egluro'r sefyllfa ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Roedd y gorwariant a adroddwyd yn ymwneud â'r swyddogaeth drwyddedu yng Nghaerdydd ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr yng Nghyngor Caerdydd ynghylch y broses gyllideb.

Mewn perthynas â pharagraff 2.3 a'r enillion cyflym a nodwyd gan y grŵp ffocws, eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y rhain yn cynnwys pethau fel newid terminoleg ar gyfer hysbysebion swyddi er mwyn adlewyrchu'n well sut yr oedd darpar weithwyr yn chwilio am swyddi.

Gofynnodd y Cynghorydd D. De'Ath a oedd rhaglen dal i fyny yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnig unrhyw fuddion. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Masnachol ei bod yn gwneud hynny oherwydd ei bod yn cynnig fframwaith a oedd yn cynorthwyo cynnydd o ran yr archwiliadau ar gyfer safleoedd risg uchel. Roedd hyn yn bwysig gan fod ôl-groniad wedi bod oherwydd effaith COVID. Er bod terfyn amser y cynllun adfer wedi dod i ben, nid oedd y Gwasanaeth yn barod eto i fynd yn ôl i'w raglen arferol o archwiliadau. Felly, mewn perthynas â safleoedd Categoriâu C i E, roedd y Gwasanaeth yn dal i drafod gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

No.

Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Sivagnanam at y cynnydd mewn cwynion sŵn gan fusnesau a gofynnodd beth oedd y rhesymau dros hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y rheswm dros fethu targedau mewn perthynas ag unedau masnachol a diwydiannol yn ymwneud yn bennaf â lleoliadau adloniant ond roedd mater proses fewnol i'w ddatrys mewn perthynas â sut y cafodd cwynion eu cofnodi ac yn cael sylw, yn enwedig dros benwythnosau. Felly, byddai ôl-groniad fel arfer felly roedd y Gwasanaeth yn ystyried ffyrdd o sicrhau mwy o adnoddau ar ddechrau'r wythnos er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i ymateb i gwynion er mwyn bwrw'r targed.

Gwnaeth y Cynghorydd Sivagnanam sylwadau ar yr arbedion y bu'n rhaid i'r Gwasanaeth a Rennir eu gwneud yn ogystal â'r adnoddau cyfyngedig a dywedodd ei bod yn bwysig i bob cynrychiolydd y Cyngor fynd yn ôl a lobbïo ei awdurdod ei hun am fwy o adnoddau. Roedd hyn yn rhywbeth y byddai angen ei ddatblygu pan oedd pob Cyngor yn gosod eu cyllidebau ar gyfer y dyfodol.

O ran rheolaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynghylch llygredd aer a sŵn, gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau mewn perthynas â chefnffyrdd a gwella llygredd aer. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Tîm y Gwasanaethau Arbenigol (yr Amgylchedd) fod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod rhai ffyrdd nad oeddent yn cydymffurfio â'r safonau presennol felly un o'r mesurau a gedwir yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried oedd gweithredu parthau aer glân ar gefnffyrdd, ond byddai hyn yn gofyn am newidiadau yn y gyfraith.

O ran ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch mater llosgwyr coed domestig, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod ymgynghoriad wedi'i gynnal, ond nid oedd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi eto. Roedd deddfwriaeth bresennol mewn perthynas â Deddf Aer Glân 1993 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddatgan ardaloedd rheoli mwg bach ond y gobaith oedd y byddai deddfwriaeth yn y dyfodol yn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â gwaith tai'r sector preifat a'r angen am fwy o adnoddau, dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth y gellid gwneud mwy o waith gyda mwy o adnoddau. Roedd cynlluniau penodol gan y Cyngor hefyd, er enghraifft, roedd cynlluniau trwyddedu ychwanegol yng Nghaerdydd lle'r oedd tâl i'r sector am y drefn archwilio. Roedd hynny'n galluogi'r Gwasanaeth i wneud mwy o waith. Roedd heriau ariannol ar draws rhannau eraill o'r Gwasanaeth hefyd yn cael eu cydnabod ac roedd angen eu hystyried fel rhan o'r broses o osod cyllideb ar draws y tri awdurdod partner.

Canmolodd y Cynghorydd D. De'Ath y gwaith effeithlonrwydd ynni a gofynnodd a oedd unrhyw ffordd i'r gwaith hwnnw gael ei ddathlu. Mewn ymateb dywedodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cymdogaeth fod y wefan wedi cael ei diweddarau a'i gwella'n ddiweddar, ond roedd lle i hyrwyddo gwaith da ymhellach a fyddai'n cael ei ystyried gan reolwyr.

Wedi hynny,

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) Cymeradwyo Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2023/24 a Chynllun Iechyd Porthladdoedd 2023/24.
- (3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy a'r Cynllun Iechyd Porthladdoedd pe bai'r angen yn codi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau mewn cysylltiad â chlefyd trosglwyddadwy ac iechyd porthladdoedd.
- (3) Galluogi gwneud mân newidiadau, pe bai'r angen yn codi, yn ystod oes y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy a'r Cynllun Iechyd Porthladdoedd, heb fod angen eu dwyn yn ôl i'r Cyd-bwyllgor.

(g) Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd A Bwyd Anifeiliaid Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir 2023-24 (CAT) –

Diben yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid y GRhR ar gyfer 2023/24.

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Pwyllgor am waith y GRhR mewn perthynas â chyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

Gofynnodd yr adroddiad i'r Pwyllgor gymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid y GRhR ar gyfer 2023/24.

Dywedodd y Cynghorydd R. Sivagnanam y byddai angen mwy o adnoddau wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu, felly roedd yn bwysig i'r Aelodau lobïo eu hawdurdod priodol yn ogystal â lobïo Llywodraeth Cymru.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023/24.

No.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023/24 pe bai'r angen yn codi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n gyfredol pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod.

(h) Adolygiad O Bolisi Cydymffurfiaeth A Gorfodaeth Y Gwasanaethau Rheoliadol A Rennir (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cyd-bwyllgor am adolygiad diweddar o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r GRhR. Roedd y Polisi wedi bod ar waith ers 2016 i osod y safonau a fyddai'n cael eu cymhwyso wrth ymdrin â materion diffyg cydymffurfio â chyfraith diogelu'r cyhoedd. Mae Polisi diwygiedig drafft wedi'i baratoi o ganlyniad i'r adolygiad hwn, gyda'r nod o sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas at y diben.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cydbwyllgor i'r GRhR weithredu'r Polisi wedi'i ddiweddarau a hefyd ei fod yn argymhell mabwysiadu'r Polisi diwygiedig gan y tri Chyngor partner.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r Polisi Gorfodi a'r atodiadau wedi'u diweddarau i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Argymhell bod y Polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a gyflawnir gan y Gwasanaeth a Rennir ar eu rhan.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud mân ddiwygiadau gweinyddol a diweddariadau i'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi diwygiedig, ar ôl ei weithredu, pe bai'r angen yn codi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Mae'r penderfyniad i erlyn achosion o dorri deddfwriaeth a orfodir gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn nwylo pob Cyngor ac, o'r herwydd, byddai angen i'r tri awdurdod partner fabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

No.

(3) Sicrhau, yn ystod oes y Polisi diwygiedig (h.y. cyn ei adolygiad llawn nesaf), y gellid ymgorffori mân ddiwygiadau a diweddariadau heb yr angen i ofyn am gymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar bob achlysur.